YR ATODLEN

RHAN 1

CYFLWYNIAD

1. Yn yr Atodlen hon —

mae i "elusen" yr ystyr a roddir i "charity" yn adran 96(1) o Ddeddf Elusennau 1993(**1**);

ystyr "grwp blwyddyn" ("*year group*") yw grwp o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol ac sy'n cyrraedd yr un oedran yn ystod y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar 1 Medi yn y flwyddyn ysgol pan wneir y cais (neu, yn ôl y digwydd, yn ystod y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar 1 Medi yn union o flaen y dyddiad hyd ato y llenwir y ffurflen flynyddol); ac

ystyr "llety byrddio" ("*boarding accommodation*") yw llety dros nos y mae'r ysgol yn ei drefnu neu ei ddarparu yn yr ysgol neu yn rhywle arall, ac eithrio llety i ddisgyblion i ffwrdd o dir ac adeiladau'r ysgol ar drip am gyfnod byr.

(**1**) 1993 p.10.